# PWYLLGOR SAFONAU 15 Mai, 2009

**YN BRESENNOL: AELODAU ETHOLEDIG:** Y Cynghorwyr Margaret Griffith, Steven Churchman a Keith Greenly Jones.

**AELODAU ANNIBYNNOL:** Mr John Pollard (Cadeirydd), Mr Gwilym Ellis-Evans, Mr Malcolm Jones a Mr Sam Soysa.

**AELOD PWYLLGOR CYMUNEDOL:** Mr A.M.D.Clay

**HEFYD YN BRESENNOL:** Dilys Phillips (Swyddog Monitro), Siôn Huws (Swyddog Priodoldeb) ac Ioan Hughes, (Swyddog Pwyllgor).

## 1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Datganodd Mr A.M. D. Clay ddiddordeb yn eitem 8 ar y rhaglen, (Honiadau yn Erbyn Aelodau – rhif 200801843) oherwydd bod ganddo wybodaeth bersonol o'r honiadau a wnaed.

Gan na chododd unrhyw drafodaeth ar y mater ni fu i'r aelod adael yr ystafell.

## 2. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod diwethaf o'r Pwyllgor hwn, a gynhaliwyd ar 11 Chwefror, 2009, fel rhai cywir.

## 3. CEISIADAU AM OLLYNGIADAU

Cyflwynwyd adroddiad y Swyddog Monitro yn nodi fod tri chynghorydd wedi gwneud cais am ollyngiad mewn perthynas â threfniadaeth ysgolion cynradd sef:

- Y Cynghorydd Gethin Glyn Williams, ar sail bod ei blentyn yn ddisgybl mewn ysgol gynradd a'i bartner yn gweithio yn y gegin mewn ysgol gynradd.
- Y Cynghorydd Dyfrig Lewis Siencyn ar sail bod ei fab yn ddisgybl mewn ysgol gynradd a'i ferch yn athrawes lanw mewn ysgolion cynradd.
- Y Cynghorydd Alun Wyn Evans ar sail bod ei wraig yn dysgu mewn ysgol gynradd.

Cyfeiriodd y Swyddog Monitro at ganllawiau a osodwyd gan y pwyllgor hwn mewn cyfarfod ym mis Mehefin, 2008.

Bryd hynny penderfynwyd fel a ganlyn:

***y byddai gŵr neu wraig, plant, brawd neu chwaer yn creu cysylltiadau rhy agos i ganiatáu gollyngiad o safbwynt ysgolion penodol oherwydd y byddai'n anodd i'r cyhoedd gael hyder yn y modd y gwneid y penderfyniadau.***

Cyfeiriodd y swyddog ymhellach at y datblygiadau hyd yma gan esbonio fod y Cyngor wedi mabwysiadu strategaeth ar gyfer ad-drefnu ysgolion cynradd y sir. Sail y strategaeth yw adolygu dyfodol ysgolion cynradd o fewn dalgylchoedd penodol.

Bydd y broses adolygu dalgylchoedd yn gweithredu trwy dynnu Panel Adolygu Dalgylch at ei gilydd. Bwriedir i aelodaeth y panel gynnwys pob aelod etholedig lleol, penaethiaid ysgolion a chadeiryddion llywodraethwyr, cynrychiolaeth eglwysig a'r Arweinydd Portffolio Addysg.

Fel ail gam o'r broses, byddai'r Arweinydd Portffolio yn llunio cynigion ar gyfer pob dalgylch. Caiff ei chefnogi yn y gwaith yma gan banel ymgynghorol sirol, sef 6 aelod o'r Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc.

Nodwyd fod arbenigedd gan y Cynghorydd Dyfrig Lewis Siencyn yn y maes oherwydd ei fod yn Gadeirydd y Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc ac wedi cadeirio'r Gweithgor Ad-drefnu Ysgolion Cynradd.

Y dalgylchoedd cyntaf i'w hadolygu fydd Tywyn, Y Berwyn a'r Gader.

'Roedd aelodau'r Pwyllgor wedi derbyn copïau o'r ceisiadau ymlaen llaw a nodwyd fod y cyfan yn geisiadau am Ollyngiad Cyffredinol ac am yr hawl i siarad a phleidleisio.

Amlinellwyd y materion i'w hystyried gan y Swyddog Monitro, ac adroddodd fod tri opsiwn gan yr aelodau sef:

- Gwrthod y ceisiadau yn gyfan gwbl
- Caniatáu'r ceisiadau'n llawn ar gyfer trafod a phleidleisio mewn cyfarfodydd o'r Panel Adolygu Dalgylch, pwyllgorau'r Cyngor a'r Cyngor llawn hyd yn oed os yw'r drafodaeth neu'r bleidlais yn effeithio ar yr ysgol mae'r cynghorwyr wedi datgan cysylltiad uniongyrchol â hi.
- Caniatáu gollyngiad yn rhannol. Awgrymodd y Swyddog Monitro amrywiol ddulliau o weithredu hyn.

Ystyriwyd y ceisiadau a daeth yn amlwg ar ddechrau'r drafodaeth nad oedd y mwyafrif o'r aelodau am wrthod y ceisiadau'n gyfan gwbl. 'Roeddent o'r farn y byddai'n anfanteisiol i'r Panel Adolygu Dalgylch pe na fyddai modd i'r cynghorwyr lleol gyflwyno gwybodaeth iddynt.

Er hyn 'roedd rhai aelodau'n tynnu sylw at y canllawiau a osodwyd gan y pwyllgor hwn, ac o ystyried y rhain 'roeddynt o'r farn y dylid gwrthod y ceisiadau.

'Roedd cytundeb na ddylid caniatáu'r ceisiadau'n llawn gan y byddai hyn yn

gwbl groes i'r canllawiau a osodwyd gan y Pwyllgor Safonau. Pwysleisiwyd ymhellach y byddai'n anodd i bleidlais cynghorwyr fod yn ddiduedd pe byddai eu cysylltiad ag ysgol yn agos.

Wrth drafod y posibilrwydd o roi caniatâd rhannol ystyriwyd amrywiol lwybrau a ellid eu dilyn. Nodwyd y byddai'r Panel Adolygu Dalgylch yn trafod y dalgylch yn ei chyfanrwydd yn hytrach nag o safbwynt ysgolion unigol.

Nodwyd gan y Swyddog Monitro na fyddai'r Panel yn gwneud unrhyw benderfyniad, ac o ganlyniad byddai'n annhebygol iddynt bleidleisio'n ffurfiol ar unrhyw fater.

**PENDERFYNWYD:**

- i) **Caniatáu gollyngiad i'r tri aelod i gymryd rhan yn y trafodaethau a gynhelir gan Banel Adolygu Dalgylch ond gwrthod gollyngiad iddynt bleidleisio pe byddai sefyllfa o gymryd pleidlais yn codi.**
- ii) **Bod y tri aelod yn datgan y gollyngiad i'r Panel Adolygu Dalgylch.**
- iii) **Gwrthod gollyngiad i'r tri aelod i gymryd rhan mewn trafodaethau nac i bleidleisio ar y mater mewn unrhyw un o bwyllgorau'r Cyngor na'r Cyngor llawn.**
- iv) **Bod y Swyddog Monitro yn ysgrifennu at holl aelodau'r Cyngor i roi gwybod iddynt am benderfyniad y Pwyllgor Safonau fel arweiniad ar gyfer yr adegau pan fyddant yn gwneud ceisiadau cyffelyb.**

## 4. PROTOCOL CYSWLLT- AELOD-SWYDDOG

Cyflwynwyd adroddiad y Swyddog Monitro yn cyfeirio at Brotocol Cyswllt Aelod-Swyddog sydd wedi bodoli yng Nghyfansoddiad y Cyngor ers nifer o flynyddoedd.

Ychwanegodd y swyddog fod newid wedi bod yn ddiweddar yn y berthynas rhwng rhai aelodau a rhai swyddogion. Amlygir hyn gan y ffaith fod y Swyddog Monitro wedi derbyn nifer o gwynion gan swyddogion sy'n teimlo nad yw rhai aelodau'n eu trin gyda'r parch fyddent yn ei ddisgwyl.

Ychwanegodd mai prin iawn fu cwynion yn erbyn aelodau yn y gorffennol a'i bod wedi bod yn bosib ymdrin â'r rhain drwy drafodaeth. Ond yn sgil newidiadau diweddar credai'r swyddog fod angen cyflwyno trefn fwy ffurfiol o ymdrin ag aelodau sy'n torri'r Protocol ond eto ddim yn torri'r Cod Ymddygiad.

Eisoes 'roedd y Swyddog Monitro wedi trafod y sefyllfa'n fewnol gydag Arweinyddion yr holl Grwpiau Gwleidyddol ar y Cyngor, ynghyd â Gweithgor o'r Pwyllgor Craffu Adnoddau a Chorfforaethol.
Yn sgil hyn gwnaed cais i'r Pwyllgor Safonau fod yn rhan o gyfundrefn lle byddai'n bosib cyflwyno cwynion o dorri'r Protocol Aelod-Swyddog ac yna ystyried sut i ymdrin â'r mater.

Eglurodd y swyddog y byddai hyn o fewn eu dyletswyddau gan mai cyfrifoldeb y Pwyllgor Safonau yw cynnal safon ymddygiad cynghorwyr yng Ngwynedd.

Cyflwynodd y swyddog wybodaeth am y gyfundrefn oedd yn cael eu hargymell. Eglurodd mai'r cam cyntaf fyddai rhoi cyngor cyffredinol am y gyfundrefn i'r swyddog fyddai'n gwneud y gwyn fel y gellid ystyried os yw'r mater yn debyg o ddod o fewn cod ymddygiad aelod yntau'r protocol. Byddai hefyd yn bosib i'r swyddog benderfynu peidio parhau gyda'r gwyn.

Pe byddai'r swyddog yn dymuno bwrw ymlaen gyda'r gwyn, byddai ganddo ddau opsiwn. Y dewis cyntaf fyddai datrys y gwyn yn anffurfiol gyda chyfarfod yn cael ei gynnal rhwng y swyddog, yr aelod, arweinydd y grŵp gwleidyddol perthnasol a'r Prif Weithredwr. Byddai'r Swyddog Monitro hefyd yn bresennol i gynghori'r cyfarfod.

Fel ail ddewis, fwy ffurfiol, byddai modd i'r swyddog gyflwyno'r gwyn gerbron y Pwyllgor Safonau am wrandawiad.

Awgrymodd y Swyddog Monitro y gallai'r Pwyllgor Safonau ofyn i'r Cyngor am yr hawl i roi cerydd i aelod, pe byddent yn credu fod aelod wedi torri'r protocol. Nid yw'r hawl yma'n bodoli ar hyn o bryd.

Mynegwyd pryder gan aelodau oherwydd bod y sefyllfa yma wedi codi. Pwysleisiodd aelod y dylid cymryd camau pendant i ddisgyblu pan mae angen ac yr oedd am i arweinyddion grwpiau gwleidyddol sicrhau fod yr aelodau'n ymddwyn yn briodol.

'Roedd aelod arall yn tanlinellu'r angen i warchod swyddogion a galwyd am arweiniad pendant ynglŷn â'r llinell derfyn o safbwynt torri'r protocol. Nodwyd hefyd fod rhaid i'r swyddogion a'r aelodau fod yn ymwybodol o ofynion y protocol.

Croesawyd y gyfundrefn a awgrymwyd, a theimlai aelod y byddai'r newid yn creu cyfle i ymdrin â mater yn bendant yn hytrach na chyflwyno cwyn i'r Ombwdsmon a allasai beidio gweithredu.

Galwyd am adroddiad blynyddol yn rhoi gwybodaeth am y nifer o gwynion a wneir a'r camau a gymerir i ymdrin â hwy. '.

**PENDERFYNWYD:**

**i) derbyn bod angen cyfundrefn sy'n caniatáu i swyddog ddod â chwyn yn erbyn aelod a bod y Pwyllgor Safonau yn rhan o'r gyfundrefn**

**ii) bod y Swyddog Monitro yn darparu adroddiad yn rhoi manylion pellach am y gyfundrefn ac yn cryfhau'r Protocol Aelod-Swyddog gan ystyried y sylwadau a wnaed gan aelodau'r pwyllgor hwn.**

**iii) bod yr adroddiad yn cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor Safonau mewn da bryd fel y gellir cyflwyno adroddiad ar y gyfundrefn i'r Cyngor llawn ym mis Gorffennaf.**

**iv) bod adroddiadau'n cael eu cyflwyno'n flynyddol yn rhoi gwybodaeth am y nifer o gwynion a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn a'r camau a gymerwyd i ymdrin â phob un.**

**4. PENODI AELOD ANNIBYNNOL NEWYDD**

Cyflwynwyd adroddiad y Swyddog Monitro yn nodi fod yr aelodau, yn eu cyfarfod ym mis Chwefror, 2009, wedi penderfynu gofyn i'r Cyngor gynyddu'r nifer o aelodau annibynnol sy'n gwasanaethu ar y Pwyllgor Safonau o bedwar i bump.

Ymhelaethodd y Swyddog Priodoldeb y byddai hyn yn ei gwneud yn haws i gyd-fynd â rheolau sy'n bodoli o safbwynt sicrhau cworwm.

Gyda'r cynnydd byddai gan y Pwyllgor naw aelod, sef yr uchafswm a ganiateir dan y rheoliadau.

Eglurodd y Swyddog Priodoldeb mai'r ddau fater i'w hystyried oedd y dull mwyaf effeithiol o hysbysebu ac o sefydlu Panel Cyfweld. Ychwanegodd y byddai'n rhaid i'r Panel Cyfweld gynnwys aelod pwyllgor cymunedol ac aelod lleyg.

Cyfeiriwyd yn arbennig at benderfyniad Parc Cenedlaethol Eryri i wahodd Pennaeth Coleg Meirion Dwyfor, Dr Ian Rees i wasanaethu ar y Panel fel aelod lleyg. Nodwyd ei fod wedi bod yn rhan o ddau benodiad ac y byddai'r profiad yma o fudd.

**PENDERFYNWYD:**

**i) fod Dr Ian Rees yn cael ei wahodd i fod yn aelod o'r panel cyfweld fel aelod lleyg.**

**ii) Penodi Cadeirydd y Pwyllgor Safonau, Mr John Pollard, ynghyd â Mr Sam Soysa, Mr A.M. D. Clay a'r Cynghorydd Stephen Churchman yn aelodau o'r Panel Cyfweld**

**iii) Hysbysebu am ymgeiswyr ym mhapurau'r Daily Post, Cambrian News a Phapurau Grŵp Yr Herald gyda llythyrau'n cael eu hanfon at bapurau bro Gwynedd yn rhoi gwybod am y penderfyniad i benodi aelod ychwanegol.**

**5. HONIADAU YN ERBYN AELODAU**

Cyflwynwyd adroddiad y Swyddog Monitro yn hysbysu'r aelodau o honiadau a dderbyniwyd drwy law'r Ombwdsmon ers i adroddiad gael ei chyflwyno ym mhwyllgor mis Chwefror 2009.

Ymhelaethodd y Swyddog Priodoldeb a chyfeiriodd at gyfanswm o bedwar honiad. 'Roedd y swyddog eisoes wedi adrodd ar dri o'r rhain. Gyda dau ohonynt, nid oedd yr Ombwdsmon wedi penderfynu os oedd am ymchwilio i'r gŵyn ai pheidio.

'Roedd trydydd honiad yn ymdrin ag aelod o gyngor cymuned a gyhuddwyd

o ysgrifennu llythyr maleisus, difenwol, gwahaniaethol a ffeithiol anghywir at weinidog o Lywodraeth y Cynulliad.

Yn dilyn ymchwiliad, penderfynodd yr Ombwdsmon fod tystiolaeth o doriadau posib o'r cod ymddygiad, sydd o natur ddifrifol. O ganlyniad, mae wedi cyfeirio'r mater at Banel Dyfarnu Cymru am benderfyniad.

Cyfeiriodd y swyddog at y broses o ymdrin ag achosion sy'n cael eu cyfeirio at Banel Dyfarnu Cymru. Nodwyd y bydd tribiwnlys yn cael ei gynnal yn ardal y cyngor cymuned. Fel rheol bydd y gwrandawiadau yma yn gyhoeddus.

Dyma'r tro cyntaf i'r Ombwdsmon gyfeirio honiad, o fewn awdurdodaeth Pwyllgor Safonau Cyngor Gwynedd, at Banel Dyfarnu Cymru. Cadarnhawyd y bydd adroddiad ar y gwrandawiad yn cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor Safonau. Yn ogystal bydd aelodau'r pwyllgor yn derbyn gwybodaeth am ddyddiad y gwrandawiad fel y gallant fod yn bresennol os yw'n gyhoeddus ac os ydynt yn dymuno bod yn bresennol.

O ystyried y pedwerydd honiad, penderfynodd yr Ombwdsmon beidio ymchwilio i'r gwyn. Fodd bynnag, nododd y swyddog fod yr Ombwdsmon yn derbyn y gallai'r cod ymddygiad fod wedi ei dorri ond nad oedd yn credu fod yr achos yn ddigon difrifol i ddenu sancsiwn gan naill ai Bwyllgor Safonau Gwynedd neu gan Banel Dyfarnu Cymru.

**PENDERFYNWYD derbyn y wybodaeth.**